Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS)

# Sut i ddefnyddio Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Pherthi/Gwrychoedd Haen Gyffredinol SFS 2026



**Y Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Pherthi/Gwrychoedd – Canllaw Sut i Lenwi**

Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn esbonio gam wrth gam sut mae llenwi ffurflen Gweithred Gyffredinol (UA)10: Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Pherthi/Gwrychoedd. Maen nhw ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Os cewch unrhyw fath o drafferth gyda'r canllaw neu i fynd ar RPW Ar-lein, cysylltwch â Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW ar 0300 062 5004.

Mae'r canllaw hwn wedi'i rannu'n adrannau gyda chyfarwyddiadau cam wrth gam manwl ar sut i ddiweddaru'r Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Pherthi/Gwrychoedd (THPOP). Mae canllawiau pellach ar sut mae'r Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Pherthi/Gwrychoedd a Dangosfwrdd Haen Gyffredinol yr SFS yn gweithio gyda'i gilydd i'w gweld yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy: sut i gwblhau fy Nangosfwrdd Haen Gyffredinol SFS

Cynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru.

© Hawlfraint y Goron 2026

# Cynnwys

**Y Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Pherthi/Gwrychoedd – Canllaw Sut i Lenwi** .... 2

UA10: Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd .... 5

Tudalen hafan .... 8

Yr olygfa gyntaf wrth agor Dangosfwrdd yr Haen Gyffredinol .... 9

Panel 1 - Mynd o un UA i'r llall .... 10

Sgrin y Cyflwyniad .... 13

Hysbysiad Preifatrwydd .... 16

Trosolwg .... 17

Trosolwg o'r Themâu .... 18

Themâu .... 19

Thema 5 .... 21

Crynodeb o'r Themâu .... 22

Map .... 24

Gweld yr Opsiynau ac Allwedd y Map .... 25

Y Gofyniad Plannu Lleiaf .... 27

Offer mesur .... 28

Chwilio / dewis parsel .... 28

Modd mapio .... 29

Yn ôl i'r daliad .... 30

Ychwanegu Coed neu Berthi/Gwrychoedd .... 30

Arwynebedd / hyd lleiaf ar y map .... 31

Y lliwiau ar y map .... 32

Mapio ar dir sensitif .... 33

Mapio Coed Unigol .... 34

Cael gwared ar goed unigol .... 34

Cadarnhau pwyntiau coed unigol .... 35

Negeseuon camgymeriad .... 36

Gosod coeden unigol y tu allan i'r parsel actif .... 36

Gosod coeden unigol mewn nodwedd barhaol ddŵr neu a wnaed gan ddyn .... 37

Y pellter lleiaf rhwng coed unigol .... 37

Mapio coeden unigol ar ben grŵp o goed .... 37

Mapio coed unigol ar ben perth/gwrych ........ 38
Grŵp o Goed ........ 39
Ychwanegu arwynebedd penodol ar gyfer grŵp o goed ........ 39
Darlunio grwpiau ychwanegol o goed yn yr un parsel........ 40
Lluniadu'n agos at ffin parsel........ 40
Llenwi'r parsel cyfan ........ 41
Grwpiau o goed drafft ........ 43
Cadarnhau Grwpiau o Goed ........ 43
Golygu grwpiau o goed ........ 47
Golygu grŵp o goed a'i wneud yn llai na'r O.01ha gofynnol ........ 51
Lluniadu grŵp newydd o goed ar ben grŵp o goed sy'n bod eisoes gan greu grŵp sy'n llai na 0.01ha........ 51
Botwm dileu arwynebedd........ 52
Perthi/Gwrychoedd ........ 54
Cadarnhau perth/gwrych ........ 56
Gosod perth/gwrych ar ben canopi coed a nodwedd barhaol o ddŵr neu a wnaed gan ddyn ........ 59
Mapio perthi/gwrychoedd a choed unigol ........ 60
Gosod perth/gwrych ar ben grŵp o goed sydd wedi'i gadarnhau........ 60
Gosod perth/gwrych newydd ar ben perth/gwrych sydd wedi'i gadarnhau ........ 62
Tynnu llinell perth/gwrych sy'n croesi ei hun ........ 62
Crynodeb ........ 63
Nodweddion sensitif:........ 63
Datganiadau ac Ymrwymiadau ........ 64
Cyflwyno ........ 65

# UA10: Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd

Nod y weithred hon yw eich annog i ystyried ble y byddai plannu coed, coetir neu berthi/gwrychoedd o fudd i'ch busnes ffermio.

Mae'r Weithred Gyffredinol hon yn cynnwys dau ofyniad gwahanol:

**Cwblhau Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd ar RPW ar lein erbyn 31 Rhagfyr 2026.**

- Mae'n rhaid i'ch cynllun gynnwys o leiaf 0.1 hectar o goed newydd posibl. Byddwn yn cyfrifo hyn ar eich rhan trwy ddefnyddio'r arwynebeddau a'r coed rydych chi wedi'u plotio yn eich cynllun cyfle.

- Isafswm maint arwynebedd y gellir ei nodi yn y cynllun yw 0.01ha.

- Bydd gan goed unigol sy'n cael eu plotio yn y cynllun arwynebedd tybiannol o 4m2 (0.0004ha).

- Gallwch hefyd gynnwys plannu perthi/gwrychoedd newydd posibl yn eich cynllun. Rhaid i berth fod o leiaf 20 metr o hyd.

**Pwysig:** Ni fydd perthi sy'n cael eu plannu o dan y cynllun yn cyfrif tuag at y gofyn i blannu o leiaf 0.1 hectar o goed newydd posibl.

- Bydd angen i chi gwblhau Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd, waeth beth yw arwynebedd y gorchudd canopi coed neu berthi/gwrychoedd ar eich daliad ar hyn o bryd na phwy sy'n berchen neu'n rhentu'r tir.

**Pwysig:** Nid oes modd llacio'r rheolau o ran cyflwyno Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Pherthi/Gwrychoedd.

**Gofyniad 2: Dangos y gwaith sy'n mynd yn ei flaen i roi'ch cynllun ar waith erbyn 31 Rhagfyr 2028.**

Mae manylion llawn gofynion UA10: Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Pherthi/Gwrychoedd ar gael yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy: haen gyffredinol 2026 | LLYW.CYMRU.

Ceir crynodeb o'r gofynion isod.

Rhaid i chi ddangos cynnydd tuag at weithredu eich cynllun erbyn 31 Rhagfyr 2028. Gellir dangos hyn fel a ganlyn:

| Dangos Cynnydd | Terfyn amser |
|---|---|
| Plannu coed a/neu goetir sy'n cwmpasu arwynebedd o 0.1ha o leiaf ers 1 Ebrill 2022.<br>• Os ydych chi wedi cwblhau'r gofyniad plannu hwn fel rhan o gynllun creu coetir Llywodraeth Cymru, byddwn yn cadarnhau'n awtomatig eich bod wedi bodloni'r gofyniad. Amherthnasol.<br>• Os ydych chi wedi cwblhau'r gofyniad plannu hwn y tu allan i gynllun Llywodraeth Cymru, bydd angen i chi gadarnhau arwynebedd neu nifer y coed a blannwyd, a'r dyddiadau sefydlu, yn yr SAF. | Amherthnasol. |
| Bod â Llythyr Dyfarnu Grant cymeradwy gan Lywodraeth Cymru i ymgymryd â phlannu o leiaf 0.1ha o goed neu goetir newydd, a chwblhau'r gwaith plannu erbyn 31 Mawrth 2029. | Y Llythyr Dyfarnu Grant i'w dderbyn erbyn 31 Rhagfyr 2028<br>Y gwaith plannu i'w gwblhau erbyn 31 Mawrth 2029. |
| Cwblhau gwaith plannu o leiaf 0.1ha o goed neu goetir y tu allan i gynllun grant Llywodraeth Cymru. | Y gwaith plannu i'w gwblhau erbyn 31 Mawrth 2029 |
| Cyflwyno a gofyn am gymeradwyo cais am randdirymiad os yw'n briodol. | 31 Rhagfyr 2028 |

Noder: Rhaid i chi blannu o leiaf 0.1 hectar (gydag isafswm dwysedd plannu o 2,500 o goed/ha) neu 250 o goed unigol a allai fod mewn un bloc neu'n gyfuniad o goed unigol, coed mewn perthi/gwrychoedd a grwpiau llai o goed. Rhaid newid coed sy'n methu â sefydlu am rai newydd.

Rhaid cwblhau'r gwaith plannu coed erbyn 31 Mawrth 2029 waeth a ydych chi wedi hawlio am Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy am y tro cyntaf yn 2026, 2027 neu 2028.


Byddwch yn dangos y gwaith sy'n cael ei wneud i roi'ch cynllun ar waith a chwblhau'r gofynion plannu coed ar RPW Ar-lein o 2027 ymlaen ac nid ar y Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Pherthi/Gwrychoedd.

# Tudalen hafan

Pan fyddwch wedi mewngofnodi i'ch cyfrif, fe welwch dudalen 'Hafan' eich cyfrif RPW Ar-lein.


I newid yr iaith ar unrhyw adeg, cliciwch ar y botwm **Cymraeg/English** ar y bar yng nghornel dde uchaf Sgrin Wybodaeth RPW Ar-lein.

I gael gweld y Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Pherthi/Gwrychoedd, bydd angen i chi ei hagor ar Ddangosfwrdd Haen Gyffredinol yr SFS



## Yr olygfa gyntaf wrth agor Dangosfwrdd yr Haen Gyffredinol

Wrth glicio "Dangosfwrdd Haen Gyffredinol yr SFS" ar y ddewislen, bydd y dudalen ganlynol yn agor.  Bydd yn dangos pob un o'r 12 Gweithredu Gyffredinol (UA) mewn paneli ar wahân. Bydd y paneli hyn yn unigryw ac yn berthnasol i'ch fferm chi.



Dangosfwrdd Haen Gyffredinol yr SFS   Map Cynllun Ffermio Cynaliadwy

# Dangosfwrdd Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy 2026

Crynodeb o'r Gweithredoedd Cyffredinol (UA)

UA1 Iechyd Pridd

UA2 Rheolaeth Integredig ar Blâu (IPM)

UA3 Meincnodi

UA4 Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)

UA5 Cynnal Cynefinoedd

UA6 Creu Cynefinoedd Dros Dro ar Dir Wedi'i Wella

UA7 Cynllun Rheoli Safleoedd Dynodedig

UA8 Rheoli Perthi/Gwrychoedd

UA9 Cynnal Coetir

UA10 Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd

UA11 Yr Amgylchedd Hanesyddol

UA12 Iechyd a Lles Anifeiliaid

Canllaw

Darllenwch y canllawiau ar gyfer Haen Gyffredinol yr SFS yn LLYW.CYMRU

## Crynodeb o'r Gweithredoedd Cyffredinol (UA)

Gweithredoedd i'w cwblhau erbyn **31 Rhagfyr 2026**

**Rydych wedi cwblhau 0 o'r 8 o Weithredoedd Cyffredinol sydd angen eu cynnal eleni**

Rhaid i chi gwblhau'r holl Weithredoedd Cyffredinol a restrir isod ar neu cyn **31 Rhagfyr 2026**. Bydd gennych tan y **15 Ionawr 2027** i ddiweddaru'ch dangosfwrdd.

| | |
|---|---|
| UA1 Iechyd Pridd | Heb ei ddechrau |
| UA3 Meincnodi | Heb ei ddechrau |
| UA4 Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) | Heb ei ddechrau |
| UA5 Cynnal Cynefinoedd | Heb ei ddechrau |
| UA8 Rheoli Perthi/Gwrychoedd | Heb ei ddechrau |
| UA9 Cynnal Coetir | Heb ei ddechrau |
| UA10 Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd | Heb ei ddechrau |
| UA11 Yr Amgylchedd Hanesyddol | Heb ei ddechrau |

Ddim yn berthnasol

Nid yw'r Gweithredoedd Cyffredinol canlynol yn berthnasol i chi yn 2026

UA2 Rheolaeth Integredig ar Blâu (IPM)

UA6 Creu Cynefinoedd Dros Dro ar Dir Wedi'i Wella

UA7 Cynllun Rheoli Safleoedd Dynodedig

UA12 Iechyd a Lles Anifeiliaid

Dogfennau Canllaw   Cysylltwch â ni   Datganiad Hawlfraint   Datganiad Hygyrchedd   Cwcis   Preifatrwydd

## Panel 1 - Mynd o un UA i’r llall




Gallwch ddefnyddio'r panel ar y chwith i fynd yn syth i dudalen Gwybodaeth UA10 y Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Pherthi/Gwrychoedd.


I'r dde o’r panel, bydd hyd at 3 phanel ychwanegol yn ymddangos, gan ddibynnu ar yr UAs ar eich fferm:

- Gweithredoedd i'w cynnal erbyn 31 Rhagfyr 2026.
- Y ffenestr gwblhau estynedig
- Ddim yn berthnasol

Gallwch ddefnyddio'r ddolen yn y paneli hyn hefyd i fynd yn syth i dudalen Gwybodaeth UA10.

Pan fyddwch chi'n agor y Dangosfwrdd am y tro cyntaf, bydd gan bob UA sy'n berthnasol i'ch fferm statws **Heb ei ddechrau.**

Dewiswch y botwm 'Dechrau'r cynllun' i ddechrau'ch cynllun.



## UA10 : Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd **Heb ei ddechrau**

Nod y Weithred Gyffredinol hon yw eich annog i ystyried ble y byddai plannu coed, coetir neu berthi/gwrychoedd o fudd i'ch busnes ffermio.


**Dyddiad cau:** 31 Rhagfyr 2026

### Cwblhau Cynllun (heb ei gychwyn)

I gwblhau'r Weithred Gyffredinol hon yn 2026, rhaid i chi gwblhau Cynllun Cyfle Plannu Coed a Gwrychoedd ar RPW Ar-lein erbyn 31 Rhagfyr 2026. O leiaf, rhaid i'ch cynllun gynnwys 0.10 ha o blannu coed newydd posibl.

Dechrau'r cynllun

Byddwch yn cael eich cymryd i sgrin ar wahân lle gallwch gwblhau'r Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Pherthi/Gwrychoedd.



Canllawiau Sut i Gwblhau

- Cyflwyniad
- Hysbysiad Preifatrwydd
- Trosolwg
- Themâu ×
- Map ×
- Crynodeb
- Datganiadau ac Ymgymeriadau ×
- Cyflwyno

# Cyflwyniad

## Gweithred Gyffredinol 10 Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd

### Y Cynllun

Mae Gweithred Gyffredinol 10 yn ei gwneud yn ofynnol i bob ymgeisydd cynllun greu Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd ar-lein. Dylech ystyried a mapio'r cyfleoedd sydd gennych ar eich fferm i blannu coed unigol, perthi/gwrychoedd, coedwigoedd cysgod, coridorau glan nentydd, corneli caeau, ceunydd serth, ac ardaloedd mwy o goed.

I gyflwyno cynllun yn llwyddiannus, bydd angen i chi nodi a mapio o leiaf 0.1ha o goed ychwanegol. Byddwch yn cael cyfle i nodi unrhyw berthi/gwrychoedd ychwanegol sydd wedi'u creu ond ni fydd hyn yn cyfrif tuag at y gofyniad 0.1ha. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno yw **31 Rhagfyr.**

**Noder:** Nid oes unrhyw rhanddirymiad am beidio â chyflwyno Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd.

Bydd y broses ganlynol yn eich cefnogi i gwblhau'r Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd trwy eich helpu i archwilio'r cyfleoedd niferus ar gyfer plannu ar eich tir.

### Plannu

Ar ôl i chi gyflwyno eich cynllun, rhaid i chi ddangos cynnydd tuag at weithredu eich cynllun erbyn 31 Rhagfyr 2028.

Gallwch wneud cais am rhanddirymiad o'r gofyniad plannu coed lleiaf o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Rydych chi'n denant nad oes gennych ganiatâd eich landlord i blannu coed newydd. Efallai y bydd gofyn ichi ddarparu eich cytundeb tenantiaeth neu lythyr gan eich landlord os oes gennych denantiaeth anysgrifenedig, fel tystiolaeth nad ydych yn gallu plannu coed newydd.
- Nid oes gennych ddigon o dir addas ar gael i blannu coed newydd oherwydd sensitifrwydd, er enghraifft, cynefin blaenoriaeth neu fawndir. Rhaid ichi fod wedi cyflwyno cais ymlaen llaw i CNC a derbyn cadarnhad gan CNC na ellir plannu coed ar eich tir. Bydd angen ichi sicrhau bod amser rhesymol wedi'i roi ar gyfer eich cais cyn ymgeisio ac i ymateb gael ei dderbyn cyn y dyddiad cau ar 31 Rhagfyr 2028.
- Nid oes gennych unrhyw arwynebeddau cymwys neu ddigon ohonynt ar eich fferm.

Gadael | Yn ôl | Safio | Nesaf


## Sgrin y Cyflwyniad

Bydd y Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Pherthi/Gwrychoedd yn agor ar sgrin y Cyflwyniad. Gofalwch eich bod yn ei darllen yn ofalus cyn dechrau ar y cynllun.

Mae botwm "Nesaf" ar y dudalen i chi gael symud ymlaen i'r sgriniau sy’n dilyn. Bydd y ddewislen ar y chwith yn dangos pa sgrin rydych yn edrych arni trwy liwio ei henw'n las. Gallwch hefyd ddefnyddio'r ddewislen ar y chwith i fynd o sgrin i sgrin trwy glicio ar y gwahanol benawdau. Bydd botwm "Nesaf" ar bob tudalen, ac ar y tudalennau fydd yn dilyn, bydd botwm "Yn ôl" i fynd yn ôl tudalen os oes angen.

Gallwch wasgu'r botwm "Safio" unrhyw bryd wrth lenwi'r ffurflen.

Bydd yr hyperddolen "Canllaw Sut i Gwblhau" yn mynd â chi i Ganllaw Sut i Gwblhau’r Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Pherthi/Gwrychoedd i gael rhagor o gyngor ar sut i lenwi'r ffurflen a mapio coed / grwpiau o goed a pherthi/ gwrychoedd unigol newydd.




Mae tair prif adran o'r THPOP sydd angen eu cwblhau cyn y gellir cyflwyno'r THPOP.

Adran Un: Themâu

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar wahanol themâu a ddylai eich helpu i ddewis opsiynau sy'n berthnasol i'ch fferm a'ch arferion ffermio gan wella'r canlyniadau rydych am eu sicrhau trwy blannu coed a pherthi newydd. Trwy ystyried yr opsiynau hyn, dylai hynny'ch helpu i weld ble mae'r cyfleoedd plannu posibl ar y map. Bydd angen i chi gwblhau'r adran hon cyn symud ymlaen i'r adran nesaf.

Adran Dau: Map

Mae'r adran hon yn dangos i chi sut mae dewis ble ar eich map i blannu coed neu berthi newydd gan ddefnyddio haenau o wybodaeth i'ch helpu i ddewis ble i'w lleoli. Bydd angen i chi gwblhau'r adran hon cyn symud ymlaen i'r adran Crynodeb a Datganiadau ac Ymrwymiadau.

Adran Tri: Datganiadau ac Ymrwymiadau

Defnyddiwch yr adran hon i gadarnhau eich bod yn deall y broses a bod y data rydych wedi'i roi i ni yn gywir.

**Dewislen**

Mae’r ddewislen ar y chwith yn dangos statws pob un o adrannau’r Cynllun.

• mae croes goch yn dangos eich bod naill ai heb edrych ar yr adran, neu fod gwallau ynddi. Chewch chi ddim cyflwyno’r Cynllun nes eich bod wedi llenwi’r adrannau i gyd a bod pob gwall wedi’i gywiro.

• mae tic gwyrdd yn dangos bod yr adran wedi'i chwblhau ac nad oes unrhyw wallau ynddi.

Mae botwm "Gadael" ar waelod y sgrin. Os byddwch chi'n gadael y cynllun ar unrhyw adeg ac yn mynd yn ôl i Ddangosfwrdd Haen Gyffredinol yr SFS bydd y statws ar y dangosfwrdd yn cael ei newid i **"Drafft"** ac ar ôl y pennawd "Cwblhau cynllun" bydd statws hefyd i ddangos bod y cynllun yn (**Ar y Gweill**).

Dangosir botwm "Parhau â'r cynllun" yn lle'r botwm "Dechrau'r cynllun".

### UA10 : Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd **Drafft**

Nod y Weithred Gyffredinol hon yw eich annog i ystyried ble y byddai plannu coed, coetir neu berthi/gwrychoedd o fudd i'ch busnes ffermio.

**Dyddiad cau:** 31 Rhagfyr 2026

---

#### Cwblhau Cynllun (Ar y Gweill)


I gwblhau'r Weithred Gyffredinol hon yn 2026, rhaid i chi gwblhau Cynllun Cyfle Plannu Coed a Gwrychoedd ar RPW Ar-lein erbyn 31 Rhagfyr 2026. O leiaf, rhaid i'ch cynllun gynnwys 0.10 ha o blannu coed newydd posibl.

Parhau â'r cynllun

Dewiswch y botwm 'Parhau â'r cynllun' i fynd yn ôl i'r Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Pherthi/Gwrychoedd.

# Hysbysiad Preifatrwydd

Bydd y dudalen hon yn esbonio sut y bydd y wybodaeth a ddarparwch yn cael ei rheoli, ei defnyddio a'i storio yn unol â pholisïau Llywodraeth Cymru.


Canllawiau Sut i Gwblhau
- Cyflwyniad
- Hysbysiad Preifatrwydd
- Trosolwg
- Themâu
- Map
- Crynodeb
- Datganiadau ac Ymgymeriadau
- Cyflwyno

Y Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd

Yn ôl | Safio | Nesaf

## Hysbysiad Preifatrwydd

Mae'r hysbysiad hwn yn dweud wrthych sut y byddwn yn ymdrin ag unrhyw wybodaeth a ddarperir mewn perthynas â'ch Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Pherthi/Gwrychoedd

Llywodraeth Cymru fydd y rheolwr data ar gyfer yr wybodaeth a ddarperir mewn perthynas â'ch Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Pherthi/Gwrychoedd. Y sail gyfreithlon ar gyfer y prosesu yw ei fod yn angenrheidiol ar gyfer perfformio tasg a gyflawnir wrth arfer awdurdod swyddogol a freiniwyd yn Llywodraeth Cymru.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei storio am 10 mlynedd yn dilyn blwyddyn derfynol y taliad.

### Rhannu gwybodaeth

Caiff Llywodraeth Cymru rannu gwybodaeth gyda Cyfoeth Cenedlaethol Cymru, Cyswllt Ffermio neu Gontractwyr sy'n gweithio ar ran Llywodraeth Cymru at y dibenion canlynol:

- Llunio a chyhoeddi mapiau sy'n dangos yr arwynebeddau tir sy'n cael eu hystyried ar gyfer plannu coed.
- Casglu adroddiadau o ddata agregedig a/neu ystadegau cryno i'w gwneud ar gael i'r cyhoedd.
- Llywio penderfyniadau yn ymwneud â newidiadau polisi, gan gynnwys astudiaethau ymchwil a gymhelir ar ran Llywodraeth Cymru

### Datgelu Gwybodaeth

Bydd yr wybodaeth yn cael ei rheoli a'i defnyddio gan Lywodraeth Cymru yn unol â'i rhwymedigaethau a'i dyletswyddau o dan Ddeddf Diogelu Data 2018, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

### Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i weld y data personol sydd gan Lywodraeth Cymru amdanoch
- i'w gwneud yn ofynnol i ni gywiro gwallau yn y data hwnnw (mewn amgylchiadau penodol, megis tynnu eich cais yn ôl cyn taliad), gwrthwynebu prosesu neu gyfyngu arno, a 'dileu' eich data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a'r defnydd a wneir ohoni, neu os hoffech arfer eich hawliau, gweler y manylion cyswllt isod:


Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: dataprotectionofficer@llyw.cymru

Gadael | Yn ôl | Safio | Nesaf

## Trosolwg

Bydd y dudalen hon yn rhoi trosolwg i chi o'r Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Pherthi/Gwrychoedd gan gynnwys dolen i'r cymorth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer plannu coed a chreu perthi, sef y ddolen "Grantiau a thaliadau gwledig".

**Pwysig:** mae'r cynllun hwn yn dangos ble ar eich fferm y mae cyfleoedd posibl ar gyfer plannu coed a pherthi, er mwyn cynnal y cynllun gyda'r help y gallwch ei gael trwy'r grant priodol.



Canllawiau Sut i Gwblhau

- Cyflwyniad
- Hysbysiad Preifatrwydd
- Trosolwg
- Themâu
- Map
- Crynodeb
- Datganiadau ac Ymgymeriadau
- Cyflwyno

Y Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd

Yn ôl | Safio | Nesaf

# Trosolwg

Dylai eich cynllun nodi arwynebeddau o'ch daliad yr ydych chi'n meddwl y byddai'n elwa ar goed, coetir neu berthi/gwrychoedd newydd yn seiliedig ar eich gwybodaeth ffermio, eich math o fferm a'ch lleoliad.

Gall y cynllun gynnwys blociau o goed, coed unigol neu gymysgedd o'r ddau. Gallwch gynnwys coed unigol i'w plannu ar hyd ffiniau caeau traddodiadol, gan gynnwys o fewn perthi/gwrychoedd presennol.

### Coed

Fan lleiaf, rhaid i'ch cynllun gynnwys **o leiaf 0.1 hectar o goed** newydd posibl wedi'u plannu. Byddwn yn cyfrifo hyn i chi gan ddefnyddio'r grwpiau o goed a/neu goed unigol rydych chi wedi'u plotio o fewn eich cynllun cyfle.


- Isafswm maint yr arwynebedd y gellir ei nodi ar y cynllun yw 0.01ha.
- Bydd coed unigol sy'n cael eu plotio ar y cynllun yn cael arwynebedd tybiannol o 4m2 (0.0004ha)

### Perthi/gwrychoedd

Gallwch gynnwys perthi/gwrychoedd newydd yn eich cynllun. Rhaid i isafswm hyd perth/gwrych unigol fod yn 20 metr.

**Noder: Ni fydd** plannu perthi/gwrychoedd sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun yn cyfrif tuag at yr isafswm gofyniad o 0.1 hectar o goed newydd posibl wedi'u plannu.

Gall planhigion perthi/gwrychoedd presennol sy'n cael eu caniatáu i dyfu fel coed perthi/gwrychoedd yn ogystal ag unrhyw goed ychwanegol a blannwyd o fewn perthi/gwrychoedd gyfrif tuag at ofynion Gweithred Gyffredinol 10: Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd.



### Cwblhau eich Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd

Gofynnir cyfres o gwestiynau I chi am y canlyniadau y gallech eu cyflawni ar eich tir, e.e. lliniaru perygl llifogydd.

Gall tir sy'n cael ei gategoreiddio fel cynefinoedd presennol, neu safleoedd dynodedig fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA ), neu dir sy'n bwysig i rywogaethau â blaenoriaeth fel y gylfinir fod yn anaddas i'w blannu. Mae'r rhain i gyd yn cael eu categoreddio fel sensitifrwydd a byddant yn cael eu hamlygu i chi drwy'r haen sensitifrwydd pan fyddwch chi'n cwblhau'r map.

Ar ôl ichi gwblhau'r cynllun, darperir crynodeb o'r arwynebeddau o goed newydd a hyd y perthi/gwrychoedd rydych chi wedi'u mapio gan gynnwys faint sydd wedi'u nodi dros haen sensitifrwydd.

**Bydd unrhyw beth sydd wedi'i ddarlunio o fewn yr haenau sensitifrwydd yn destun adolygiad gan y Cynllun(iau) a ddefnyddir i gefnogi eich cynllun cyfle.**


Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig amrywiaeth o gymorth a chyngor ar gyfer plannu coed a chreu perthi/gwrychoedd. Mae manylion llawn yr Haenau Opsiynol ar gael yma

[Grantiau a thaliadau gwledig | Is-bwnc | LLYW.CYMRU]

Gadael | Yn ôl | Safio | Nesaf

## Trosolwg o'r Themâu

Bydd y dudalen hon yn esbonio adran Themâu'r Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Pherthi/Gwrychoedd ac yn esbonio beth bydd angen i chi ei wneud yn yr adran hon.



## Themâu

Bydd nifer o opsiynau posibl ar gyfer plannu coed a pherthi/gwrychoedd yn cael eu cynnig i chi o dan bum thema wahanol.

Thema 1: Cynhyrchu Bwyd a Ffibr


Thema 2: Newid Hinsawdd

Thema 3: Bioamrywiaeth ac Ecosystemau


Thema 4: Diwylliant a Chefn Gwlad

Thema 5: Unrhyw Gyfleoedd Eraill ac Adolygu

Ar gyfer themâu 1 i 4 bydd sawl opsiwn a allai fod yn berthnasol i'ch fferm yn cael eu cynnig i chi. Bydd angen i chi ystyried a dewis yr opsiynau sy'n berthnasol i'ch fferm. Os nad oes un ohonyn nhw'n berthnasol i'ch fferm, cliciwch ar yr opsiwn "Nid oes unrhyw un o'r opsiynau yn berthnasol i'm fferm". Dyma enghraifft gyda Thema 1 isod.




Bydd angen i chi ddewis o leiaf un opsiwn ar bob tudalen. Os byddwch yn safio'r dudalen neu'n ceisio mynd yn eich blaen i'r crynodeb o'r Thema bydd neges rybuddio'n ymddangos ar y dudalen a bydd angen i chi gywiro'r camgymeriad hwn cyn cael symud ymlaen.



Ni fydd y sgrin yn gadael i chi ddewis cyfuniad o un neu fwy o'r opsiynau a'r ymateb "Nid oes unrhyw un o'r opsiynau yn berthnasol i'm fferm". Os yw'r neges camgymeriad ganlynol yn cael ei dangos, ni fyddwch yn cael gadael y dudalen honno nes eich bod wedi cywiro'r camgymeriad.

> Rydych wedi dewis 'Nid oes un o'r Opsiynau yn berthnasol i'm fferm' ac opsiwn/opsiynau sy'n berthnasol. Cywirwch y data hwn cyn parhau.


Ni fydd y botwm 'Gadael' ar gael os bydd un o'r negeseuon uchod yn ymddangos. Bydd angen i chi fynd i dudalen sydd heb neges camgymeriad neu ddewis ateb i allu gadael y cynllun.

## Thema 5

Bydd Thema 5 yn gofyn dau gwestiwn i chi allu nodi unrhyw opsiynau eraill a allai fod yn berthnasol i'ch fferm nad ydyn nhw wedi'u rhestru yn y themâu eraill.





I gael mynd i'r sgrin Crynodeb o'r Themâu, bydd angen i chi ddewis o leiaf un opsiwn wrth bob un o'r pum thema. Bydd angen bod tic gwyrdd wrth bob Thema. Os oes croes goch wrth thema, bydd angen cywiro'r camgymeriad yn y thema cyn mynd ymlaen.




## Crynodeb o'r Themâu

Bydd y crynodeb o'r Themâu yn dangos yr opsiynau rydych chi wedi'u dewis o dan y pum thema.

Pan fyddwch wedi dewis opsiynau perthnasol, bydd y Crynodeb o'r Themâu yn dangos yr opsiynau rydych chi wedi'u dewis ar draws y pum thema.





Ym mhob thema, rhaid i chi ddewis o leiaf un opsiwn sy'n berthnasol i'ch fferm. Os na fyddwch wedi gwneud, bydd neges camgymeriad yn cael ei dangos. Ni fyddwch yn cael mynd yn eich blaen i'r Map nes eich bod yn cywiro'r camgymeriad drwy ddewis o leiaf un opsiwn sy'n berthnasol i'ch fferm.


Canllawiau Sut i Gwblhau
Cyflwyniad
Hysbysiad Preifatrwydd
Trosolwg
Themâu
Trosolwg o'r Themâu
Thema 1: Cynhyrchu Bwyd a Ffeibr
Thema 2: Hinsawdd sy'n Newid
Thema 3: Bioamrywiaeth ac Ecosystemau
Thema 4: Diwylliant a Chefn Gwlad
Thema 5: Unrhyw Gyfleoedd Eraill ac Adolygu
Crynodeb o'r Themâu
Map
Crynodeb
Datganiadau ac Ymgymeriadau
Cyflwyno
Y Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd
Yn ôl
Safio
Nesaf
Crynodeb o'r Themâu
Ar draws y pum thema, rhaid ichi ddewis o leiaf un opsiwn sy'n berthnasol i'ch fferm (nid yw hyn yn cynnwys 'Nid oes un o'r Opsiynau yn berthnasol i'm fferm'). Cywirwch y data hwn o fewn yr adran thema wedi'i rhifo cyn parhau.
Dyma'r themâu a'r opsiynau rydych chi wedi'u dewis:
Thema 1: Cynhyrchu Bwyd a Ffeibr
Nid oes unrhyw un o'r Opsiynau yn berthnasol i'm fferm.
Thema 2: Hinsawdd sy'n Newid
Nid oes unrhyw un o'r Opsiynau yn berthnasol i'm fferm.
Thema 3: Bioamrywiaeth ac Ecosystemau
Nid oes unrhyw un o'r Opsiynau yn berthnasol i'm fferm.
Thema 4: Diwylliant a Chefn Gwlad
Nid oes unrhyw un o'r Opsiynau yn berthnasol i'm fferm.
Thema 5: Unrhyw Gyfleoedd Eraill ac Adolygu
Nac ydw, nid wyf yn gallu nodi cyfleoedd eraill ar fy fferm.
Gadael
Yn ôl
Safio
Nesaf

# Map

Mae sgrin y map yn gadael ichi ddangos mannau ar eich daliad lle gallech blannu coed neu berthi/gwrychoedd trwy glicio ar gaeau unigol. Mae'r sgrin cynnydd yn dangos faint o'r 0.1ha o waith plannu sydd wedi'i fapio, ond nid yw'n cyfrif unrhyw waith plannu blaenorol sydd wedi'i wneud o dan y gofyn hwn.


Mae'r sgrinlun isod yn dangos i chi ble mae offer perthnasol yn cael eu dangos ar y sgrin. Bydd sgrinluniau ar ôl hwn yn dangos yr offer unigol.





## Gweld yr Opsiynau ac Allwedd y Map

Trwy glicio ar y botwm Gweld Opsiynau, fe welwch gwymplen lle gallwch dderbyn neu wrthod haenau gwahanol ar y map. Mae allwedd y map yn dangos yr opsiynau y gallwch ddewis eu dangos ar y map o'r gwymplen opsiynau. Mae'r gwahanol liwiau/patrymau a ddangosir yn cyfateb i haenau'r map. Pwysig, nid oes modd dangos y Llun o'r Awyr a'r Map yr un pryd.

Byddwn yn dangos ffiniau'ch parseli â llinell goch, fel y dangosir yn allwedd y map.




### Haenau a disgrifiad

**Lluniau o'r awyr**
Bydd yr haen hon yn dangos y lluniau diweddaraf o'r awyr sydd gennym o Gymru. Gallwch eu defnyddio i gadarnhau newidiadau i ffiniau'ch caeau a nodweddion y tir a nodweddion a wnaed gan ddyn. Mae lluniau'n cael eu defnyddio i gadarnhau llawer o agweddau y Cod i Bawb.

**Haen y Map**

Bydd yr haen hon, pan fydd wedi'i derbyn ar y system, yn diffodd haen y llun o'r awyr. Os yw'r haen hon wedi'i 'gwrthod' bydd y system yn derbyn haen y llun o'r awyr yn awtomatig.

**Labeli Caeau**

Bydd yr haen yn dangos Cyfeirnodau Dalen a Rhifau Caeau'ch parseli.

**Nodweddion Parhaol**

Mae'r haen hon yn dangos y nodweddion parhaol sydd ymhob cae.

**Canopi Coed**

Mae’r haen hon yn dangos canopïau coed (unigol a grwpiau) hyd at 0.1ha o faint a mwy.

**Mannau Sensitif**

Bydd yr haen hon yn dangos yr holl dir sydd wedi'i gategoreiddio'n gynefin, neu dir sy'n bwysig i rywogaethau â blaenoriaeth, fel y gylfinir. Gallwch gynnig gwneud gwaith plannu dros unrhyw ardal sensitif. Ond, bydd cyfanswm yr arwynebedd sydd wedi'i fapio dros dir sensitif yn cael ei gofnodi ar dudalen Crynodeb o'r Map a bydd angen i ni edrych ar y rhannau rydych yn cynnig plannu arnynt cyn y gallwn gymeradwyo'r gwaith plannu.

**Cynefin**

Mae’r haen hon yn dangos y cynefinoedd parhaol sydd ymhob cae.

**Coetir Hynafol**

Bydd yr haen hon yn dangos unrhyw Goetir Hynafol a gellir ei defnyddio i gofnodi coed hynafol.

**Safleoedd Dynodedig**

Bydd yr haen hon yn dangos y Safleoedd Dynodedig ar eich daliad, gan gynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Ardaloedd Gwarchod Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, RAMSAR a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol.

**Amgylchedd Hanesyddol**

Bydd yr haen hon yn dangos holl nodweddion yr Amgylchedd Hanesyddol ar eich daliad.

**Hawliau Tramwy Cyhoeddus**


Bydd yr haen hon yn gadael ichi weld y parseli â Hawliau Tramwy Cyhoeddus ynddynt ar y map.

**Mawndir**


Bydd yr haen hon yn gadael ichi weld y parseli â Mawndir arnynt ar y map.

## Y Gofyniad Plannu Lleiaf


Rhaid i chi nodi o leiaf **0.10ha** o gyfleoedd i blannu coed newydd. Mae'r blwch o dan y bar chwilio yn cyfri'r coed unigol neu'r grwpiau o goed rydych wedi'u nodi ar y map wrth ichi fynd yn eich blaen. Mae pob coeden unigol yn cyfrif fel **0.0004ha** tuag at y targed.




**Pwysig:** Os ydych wedi nodi arwynebedd plannu sy'n llai na'r 0.10ha gofynnol ac yn ceisio mynd yn eich blaen i'r dudalen Crynodeb, bydd neges camgymeriad yn ymddangos o dan y blwch tracio cynnydd i ofyn i chi nodi rhagor o dir posibl ar gyfer plannu coed arno er mwyn parhau.





Bydd tudalen y map yn dangos X coch i ddangos nad yw’r arwynebedd plannu gofynnol o 0.10ha wedi'i nodi a bydd y dudalen 'Crynodeb' yn y bar llywio wedi troi'n llwyd. Ni fyddwch yn cael mynd i'r dudalen Crynodeb tan y byddwch wedi mapio'r 0.10ha o goed rydych yn cynnig eu plannu.




## Offer mesur

Mae'r offeryn mesur i'r ochr dde o'r bar chwilio. Gallwch ddefnyddio'r offeryn hwn i fesur pellteroedd, er enghraifft llinell perth newydd 20m o hyd. Bydd y system yn dangos neges camgymeriad os byddwch wedi camfapio unrhyw eitem, felly ni fydd gofyn i chi fesur unrhyw eitemau â llaw.




## Chwilio / dewis parsel

I chwilio am barsel, dechreuwch deipio rhif Grid Cenedlaethol y cae neu ei enw yn y bar chwilio. Dewiswch y parsel o'r gwymplen, a byddwn yn chwyddo'r parsel hwnnw ar y map yn y modd golygu.






Defnyddiwch y rheolydd chwyddo (+/–) neu olwyn sgrolio eich llygoden i symud rhwng parseli. Cliciwch a llusgwch i banio'r map, yna cliciwch ar y parsel i newid i'r modd mapio.



## Modd mapio

Yn y modd mapio, bydd ffin parsel actif yn ymddangos yn las. Dangosir hynny hefyd yn allwedd y map. Dim ond ar dir o fewn y parsel hwn y cewch gynnig plannu rhywbeth. I fynd i barsel arall, cliciwch ar un arall neu defnyddiwch y bar chwilio.




Bydd bar Manylion y Parsel i'r chwith o'r map yn dangos rhif a maint y parsel dan sylw (actif) a natur ei ddeiliadaeth. Bydd y bar hefyd yn storio'r arwynebedd y byddwch wedi'i fapio ym mhob parsel.

## Yn ôl i'r daliad


Yn y modd mapio, os ydych chi am fynd yn ôl i dudalen y prif fap, cliciwch ar y botwm glas 'Yn ôl i'r daliad'. Bydd rhaid clicio ar y botwm hwn i adael y modd mapio a mynd yn eich blaen drwy'r ffurflen.





## Ychwanegu Coed neu Berthi/Gwrychoedd

Yn y modd mapio, cliciwch ar y botwm glas **'Ychwanegu Coed neu Berthi/Gwrychoedd'** , dewiswch **Grŵp o goed**, **Coed unigol**, neu **Perthi/Gwrychoedd**, yna cliciwch ar **Parhau**. I ddychwelyd i'r map, pwyswch ar y botwm llwyd **Yn ôl**.



Os ydych wedi dewis yr opsiwn anghywir a phwyso **"Parhau,"** cliciwch y botwm glas **"Newid"** i ddewis opsiwn gwahanol neu'r botwm llwyd **"yn ôl"** i fynd yn ôl i'r map. Mae'r ddau opsiwn ar gael ar far Manylion y Parsel ac o'u pwyso, byddwch yn dileu unrhyw eitemau drafft rydych wedi'u mapio.




## Arwynebedd / hyd lleiaf ar y map

Rhaid i grŵp o goed fod o leiaf 0.01ha o faint, a pherth fod o leiaf 20m o hyd. Bydd pob coeden unigol yn $4m^2$ (0.0004ha) o faint a rhaid cadw 2m o fwlch rhwng pob un. Fe welwch neges camgymeriad os na fyddwch wedi cadw at yr amodau hyn.

## Y lliwiau ar y map


Mae lliw eitemau yn newid wrth fynd trwy'r broses fapio. Pinc fydd lliw'r eitem i ddechrau, yna bydd yn newid i las pan fydd yn ddrafft ac yn olaf yn felyn pan gaiff ei gadarnhau.

Pinc – Wrthi'n mapio

Glas – Man, pwynt neu linell drafft

Melyn - Man, pwynt neu linell wedi'i gadarnhau







## Mapio ar dir sensitif

Gallwch osod eitemau dros fannau sensitif. Fe welwch neges i ddweud y byddwn yn adolygu beth bynnag rydych yn ei roi ar dir sensitif. Bydd eitemau sy'n cael eu gosod ar dir sensitif yn cael eu cofnodi yn y dudalen Crynodeb.




# Mapio Coed Unigol

Cliciwch y botwm **'Ychwanegu Coed neu Berthi/Gwrychoedd'** , yna cliciwch ar **Coed Unigol**. Cliciwch o fewn y parsel i osod lle rydych am roi'r goeden (a ddangosir mewn glas). Daliwch ati i glicio i ychwanegu rhagor o goed. Bydd pob coeden yn ymddangos ym mar Manylion y Parsel gydag arwynebedd sefydlog o 4m$^2$.




## Cael gwared ar goed unigol

I gael gwared ar goed unigol, cliciwch ar **'Dileu Pwynt'** (bydd yn troi'n las pan ddaw'n actif), yna cliciwch ar y goeden rydych am ei dileu. Bydd coed sydd wedi'u dileu yn diflannu o'r map a bar Manylion y Parsel.





Ar ôl defnyddio **'Dileu Pwynt'**, cliciwch **'Cliciwch ar y map i osod pwynt'** i ychwanegu mwy o goed. Bydd y botwm yn troi'n las pan fydd yn actif.




## Cadarnhau pwyntiau coed unigol

I gadarnhau'r pwyntiau coed unigol sydd wedi'u mapio, cliciwch **'Parhau'** ar waelod bar Manylion y Parsel i gadarnhau'r coed sydd wedi'u mapio. Bydd y pwyntiau glas yn troi'n felyn, fel y dangosir yn allwedd y map.  Mae clicio **'Yn ôl'** yn dileu'r holl bwyntiau drafft.





Cliciwch ar y saeth ar y gwymplen wrth y gair Unigol ym mar Manylion y Parsel neu gliciwch y botwm 'Dangoswch y cyfan' i weld y coed unigol sydd wedi'u cadarnhau.

Pwyswch y botwm 'Cau popeth' neu doglo saeth y gwymplen i guddio'r coed unigol sydd wedi'u cadarnhau.




Bydd pob coeden unigol sydd wedi'i chadarnhau yn cael cyfeirnod map. Cliciwch ar gyfeirnod map gwahanol ac fe welwch y pwynt cysylltiedig yn cael ei amlygu ar y map. Mae botwm dileu ar gael i ddileu unrhyw goed unigol sydd wedi'u cadarnhau.




## Negeseuon camgymeriad

### Gosod coeden unigol y tu allan i'r parsel actif

Rhaid gosod coed unigol yn y parsel actif sydd wedi'i ddewis (ag amlinell las). Os rhoddir coeden y tu allan iddo, fe welwch neges camgymeriad: **'Rhaid gosod eitemau yn y parsel a ddewiswyd.'**

Rhaid gosod eitemau yn y parsel a ddewiswyd

## Gosod coeden unigol mewn nodwedd barhaol ddŵr neu a wnaed gan ddyn

Nid ydych yn cael gosod coeden unigol o fewn nodwedd barhaol o ddŵr neu a wnaed gan ddyn. Wnaiff y system ddim creu pwynt coeden.

## Y pellter lleiaf rhwng coed unigol

Rhaid gosod pwyntiau coed unigol o leiaf 2 fetr oddi wrth ei gilydd. Os byddwch yn eu gosod yn rhy agos i'w gilydd, fe welwch y neges "Rhaid bod o leiaf 2m rhwng pob coeden unigol".  Ni chewch greu pwynt newydd oni bai ei fod yn fwy na 2 fetr oddi wrth goeden sy'n bodoli eisoes.

> Rhaid bod o leiaf 2m rhwng pob coeden unigol.


## Mapio coeden unigol ar ben grŵp o goed

Ni chewch osod coeden unigol ar ben grŵp o goed neu ganopi sy'n bod eisoes. O geisio gwneud, fe welwch y neges: "Ni ellir gosod coeden unigol ar ben grŵp posibl o goed sy'n bodol eisoes."

> Ni ellir gosod coeden unigol ar ben grŵp posibl o goed
> sy'n bodoli eisoes

## Mapio coed unigol ar ben perth/gwrych

Gellir gosod coeden unigol ar ben perth, a gellir tynnu llinell perth trwy goeden unigol.





Mae **UA8 (Rheoli Perthi/Gwrychoedd)** yn gofyn am sefydlu neu gynnal o leiaf un goeden bob 50m o berth. Gall coeden newydd ar gyfer UA8 gyfrif at y targed plannu o 0.1ha. Gall planhigion y berth sy'n cael tyfu'n goed hefyd gyfrif o dan **UA10 (Cynllun Cyfle Plannu Coed a Gwrychoedd)** a chael eu cofnodi fel coed unigol.

## Grŵp o Goed

Dewiswch "Grŵp o goed" ac yna pwyswch "Parhau", bydd dau opsiwn ar gael i'w ddewis;

- 'Ychwanegwch arwynebeddau penodol' a fydd yn gadael ichi dynnu amlinell ardal o goed â llaw **neu**
- 'Llenwi'r parsel cyfan' i orchuddio'r parsel cyfan â choed ar wahân i rannau sydd eisoes â chanopi coed a nodweddion parhaol o ddŵr neu a wnaed gan ddyn.




## Ychwanegu arwynebedd penodol ar gyfer grŵp o goed

Bydd yr erfyn lluniadu'n cychwyn yn awtomatig wrth i chi ddechrau mapio. Mae cylch pinc yn dangos lle bydd y pwynt cyntaf yn cael ei osod. Cliciwch i ddechrau, cliciwch eto i newid cyfeiriad, a gorffennwch trwy gysylltu'r pwynt olaf â'r pwynt cyntaf i gwblhau'r siâp.




## Darlunio grwpiau ychwanegol o goed yn yr un parsel

Dewiswch **'Lluniadu arwynebedd'** i greu grŵp arall o goed. Bydd angen i chi glicio ar y botwm hwn i greu pob grŵp newydd.





## Lluniadu'n agos at ffin parsel

Os ydych chi'n lluniadu'n agos at ffin, gofynnir i chi a ydych am dynnu llinell ar hyd y ffin. Dewiswch 'Ydw' i ddilyn y ffin neu 'Na' i dynnu'r llinell â llaw.




Fel arall, gallwch dynnu'r llinell dros y ffin i barsel cyfagos a bydd y system yn snapio'r llinell yn ôl i ffin y parsel actif.







## Llenwi'r parsel cyfan

Dewiswch yr opsiwn hwn er mwyn llenwi'r parsel cyfan â choed; **Ond**, os oes coed unigol; grwpiau o goed; Nodweddion parhaol o ddŵr neu a wnaed gan ddyn, neu ganopi coed yn y parsel, bydd gwahanol negeseuon yn ymddangos gydag opsiynau i fynd yn eich blaen.


**Coed Unigol sy'n bod eisoes**

Os oes pwyntiau coeden unigol posib eisoes yn y parsel, bydd neges yn rhybuddio y bydd y grŵp newydd yn cymryd eu lle. Dewiswch **Parhau** i gadarnhau neu **Canslo** i ddileu'r grŵp.





**Grwpiau coed posib**

Ar gyfer grwpiau coed posib, cewch yr opsiwn i'w disodli . Dewiswch **'Ydw'** i'w disodli, neu **'Na'** i'w cadw a llenwi gweddill y parsel. Defnyddiwch **'Gwaredu lluniad'** i ddileu'r grwp coed newydd.



### Nodweddion parhaol o ddŵr neu a wnaed gan ddyn


Os oes nodwedd barhaol ddŵr neu a wnaed gan ddyn yn bresennol, bydd neges i ddweud eu bod yn gorgyffwrdd. Gallwch ei gwtogi at ffin y nodweddion hyn neu daflu'r lluniad. Dewiswch **'Parhau'** i lenwi'r parsel â choed ac eithrio'r nodweddion hyn, neu waredu'r grŵp o goed.




Efallai y bydd yn haws mapio ardal o goed trwy luniadu dros nodwedd barhaol ac yna dewis **'cwtogi i'r nodwedd barhaol'** pan ofynnir ichi, yn hytrach na thynnu amlinell â llaw yn agos at ymyl y nodwedd.

### Canopi Coed sy'n bod eisoes

Os oes canopi coed eisoes yn y parsel, bydd neges yn dweud bod y grŵp yn gorgyffwrdd â'r canopi. Dewiswch **'Parhau'** i fapio coed ac eithrio yn y darn o dan y canopi, neu cliciwch ar **'Gwaredu Lluniad'** i ddileu'r grŵp drafft.





### Mapio grŵp o goed ar ben perth/gwrych

**Pwysig: Os ydych chi'n bwriadu mapio perth/gwrych a grŵp o goed yn yr un parsel, dylech fapio'r berth yn gyntaf ac yna ychwanegu'r grŵp o goed ar ben y berth.**

## Grwpiau o goed drafft


Mae pob grŵp o goed yn ymddangos mewn glas ar y map ac ym mar Manylion y Parsel o dan 'Grŵp'. Cliciwch ar eitem ar y rhestr 'Grŵp' i ddangos ei lleoliad ar y map.





## Cadarnhau Grwpiau o Goed

I gadarnhau grwpiau rydych wedi'u lluniadu, cliciwch y botwm glas 'Parhau' ar waelod bar Manylion y Parsel.


Bydd y botwm 'Yn ôl' yn dileu'r holl grwpiau sydd ar ffurf drafft.




Mae grwpiau o goed sydd wedi'u safio yn ymddangos o dan **'Grŵp'** ym mar Manylion y Parsel. Ar y map, byddant yn newid o las i felyn i ddangos eu bod wedi'u cadarnhau, fel y gwelwch yn allwedd y map.




Cliciwch ar y saeth ar y gwymplen wrth y gair Grŵp ym mar Manylion y Parsel neu defnyddiwch y botwm 'Dangoswch y cyfan' i weld y grwpiau o goed sydd wedi'u cadarnhau.




Pwyswch y botwm 'Cuddiwch y cyfan' neu doglwch saeth y gwymplen i guddio'r grwpiau o goed sydd wedi'u cadarnhau.



Bydd pob rhan sydd wedi'i mapio a'i chadarnhau yn cael cyfeirnod map. Cliciwch ar gyfeirnod map gwahanol ac fe welwch y darn tir cysylltiedig yn cael ei amlygu ar y map.





Gallwch ddileu grŵp o goed o far Manylion y Parsel drwy glicio ar ei gyfeirnod map ac yna pwyso'r botwm dileu.


## Golygu grwpiau o goed

I newid grŵp o goed sydd wedi'i gadarnhau (amlinell felen), cliciwch ar y botwm 'Golygu' o dan gyfeirnod y map yn y tab Manylion y Parsel ac yna pwyswch y botwm 'Dewis'.




Bydd cyfeirnod map sydd wedi'i gadarnhau ar gyfer y grŵp o goed sy'n cael ei olygu yn cael ei ddangos ym mar manylion y parsel.





Ar gyfer Grwpiau o Goed drafft (amlinell las), pwyswch y botwm 'Dewis'.




Nesaf, cliciwch ar y grŵp o goed o'r map. Os mai dim ond un grŵp sydd yna, bydd y modd golygu ar gael ar unwaith. Os oes mwy nag un grŵp, bydd neges yn dangos **"Golygu"** neu **"Dilewch y siâp",** dewiswch **Golygu**.





Wrth olygu, symudwch y cyrchwr i ymyl y polygon lle bydd smotyn pinc yn ymddangos. Cliciwch arno a'i lusgo i newid y siâp. Bydd yr arwynebedd yn cael ei ddiweddaru ym mar Manylion y Parsel wrth i chi olygu.


Canllawiau Sut i Gwblhau
Manylion y parsel
Dewis
Grwpiau o Goed
Newid
Grŵp (1)
0.09
ha
Yn golygu'r eitemau canlynol:
12 (0.09 ha )
Y Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd
Cwblhawyd
Dileu
Gweld Opsiynau
Defnyddiwch yr offer darlunio i ddarlunio'r lleoliad arfaethedig.
Allwedd Map
Parsel actif
Ffiniau parseli eraill
Canopi Coed
Coed Posibl
Perthi/Gwrychoedd Posibl
20 m
50 ft
E: 252765 - N: 364722
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2026. Arolwg Ordnans AC0000849488. ©
International Limited 2021 a thu hwnt. Caniateir defnyddio'r data hwn yn unol â'r teler
Roedd yr wybodaeth a ddangosir ar y map yn berthnasol ar 03/07/2026.




Ar ôl i chi orffen newid y siâp, dewiswch **"Cwblhawyd"** i gadw'r newid neu **"Dileu"** i adfer y siâp gwreiddiol.



## Golygu grŵp o goed a’i wneud yn llai na'r O.01ha gofynnol

Os yw grŵp wedi'i leihau i fod yn llai na 0.01ha, bydd neges camgymeriad yn ymddangos: **"Tynnwch amlinell sydd o leiaf 0.01ha o faint".** Ni fydd y botwm **'Cwblhawyd’** yn gweithio. Cliciwch y neges camgymeriad i amlygu'r grŵp, yna naill ai cynyddwch yr arwynebedd i 0.01ha a phwyswch ar **“Cwblhawyd”** i safio’r newid neu cliciwch ar **“Dileu”** i fynd yn ôl i’r arwynebedd gafodd ei gadarnhau'n wreiddiol.




## Lluniadu grŵp newydd o goed ar ben grŵp o goed sy'n bod eisoes gan greu grŵp sy'n llai na 0.01ha.


Wrth osod grŵp newydd o goed ar ben grŵp sy'n bod eisoes, byddwch yn cael neges camgymeriad. Mae'r siapiau'n gorgyffwrdd a dydyn nhw ddim yn gydnaws â’i gilydd. Byddwch yn cael yr opsiwn i osod y grŵp newydd yn lle’r grŵp sy'n bod eisoes neu ddileu'r grŵp newydd.

> Mae amlinell eich opsiwn yn gorgyffwrdd ag eitem sy'n bod eisoes yn y cynllun ac mae'r ddau'n anghydnaws â'i gilydd.
>
> Ydy'r siâp rydych wedi'i dynnu yn cymryd lle'r eitem sy'n bod eisoes?
>
> Ydy | Nac ydy | Gwaredu lluniad

Os byddwch yn gosod grŵp newydd ar ben grŵp sy'n bod eisoes ac yn dewis **"Na",** os yw'r grŵp newydd yn llai na 0.01ha, ni fydd y system yn creu'r grŵp newydd. Bydd unrhyw grwpiau dros 0.01ha yn cael eu creu ar ffurf drafft.

Os dewiswch **"Ydy"** a bod y grŵp presennol yn mynd yn llai na 0.01ha, bydd y coed a gadarnhawyd yn cael eu dileu, a bydd y grŵp newydd yn cael ei greu ar ffurf drafft. Os yw rhan o'r grŵp presennol yn parhau i fod yn 0.01ha neu drosodd, bydd y grŵp yn aros.

Os byddwch chi'n dewis **"Ydw"** ac yn golygu grŵp drwy'r botwm **"Dewis"** i'w wneud yn llai na 0.01ha, naill ai cynyddwch y maint i 0.01ha neu **"Ddilewch**" y siâp a phwyswch **"Yn ôl".** Bydd pob grŵp drafft yn cael ei ddileu, a bydd y coed sy'n bod yn cael eu cadw.






## Botwm dileu arwynebedd

Mae'r offeryn **'Dileu arwynebedd'** yn gadael i chi luniadu polygon o amgylch grŵp o goed sy'n bodoli eisoes a dileu rhan ohono heb ddileu'r grŵp cyfan. Gwnewch yn siŵr bod pwynt cyntaf a phwynt ola'r polygon yn yr un man er mwyn cadarnhau'r darn o dir rydych am ei ddileu.





Os yw arwynebedd y grŵp o goed wedyn yn llai na 0.01ha, yna caiff y grŵp ei ddileu. Os yw'n grŵp sydd wedi'i gadarnhau, bydd angen i chi bwyso **"yn ôl"** i fynd yn ôl i'r grŵp gwreiddiol gan na fydd y botwm parhau yn gweithio. Bydd negeseuon camgymeriad yn cael eu dangos ym mar Manylion y Parsel.



Canllawiau Sut i Gwblhau
Manylion y parsel
Dewis
Grwpiau o Goed
Newid
Grŵp (1)
0.03
ha
Yn golygu'r eitemau canlynol:
27 (0.03 ha )
Parhau
Yn ôl
Y Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd
Lluniadu'r arwynebedd
Dewis
Dileu yr arwynebedd
Gweld Opsiynau
Defnyddiwch yr offer darlunio i ddarlunio'r lleoliad arfaethedig.
96.70m
Allwedd Map
Parsel actif
Ffiniau parseli eraill
Canopi Coed
Coed Posibl
Perthi/Gwrychoedd Posibl
10 m
50 ft
E: 252622 - N: 364734
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2026. Arolwg Ordnans AC0000849488.
International Limited 2021 a thu hwnt. Caniateir defnyddio'r data hwn yn unol â'r
Roedd yr wybodaeth a ddangosir ar y map yn berthnasol ar 03/07/2026.


Canllawiau Sut i Gwblhau
Manylion y parsel
Dewis
Grwpiau o Goed
Newid
Caiff yr eitem(au) canlynol eu dileu os byddwch yn parhau:
27 (0.03 ha )
Rhaid ichi blotio o leiaf un eitem ar y map cyn parhau
Parhau
Yn ôl
Y Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd
Lluniadu'r arwynebedd
Dewis
Dileu yr arwynebedd
Gweld Opsiynau
Defnyddiwch yr offer darlunio i ddarlunio'r lleoliad arfaethedig.
Allwedd Map
Parsel actif
Ffiniau parseli eraill
Canopi Coed
Coed Posibl
Perthi/Gwrychoedd Posibl
10 m
50 ft
E: 252565 - N: 364726
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2026. Arolwg Ordnans AC0000849488.
International Limited 2021 a thu hwnt. Caniateir defnyddio'r data hwn yn unol â'r
Roedd yr wybodaeth a ddangosir ar y map yn berthnasol ar 03/07/2026.


# Perthi/Gwrychoedd

Pwyswch y botwm glas 'Ychwanegu Coed neu Berthi/Gwrychoedd' ac yna dewiswch yr opsiwn Perthi/Gwrychoedd a Pharhau.




Caiff yr offeryn **'Tynnu Llinell'** ei droi ymlaen yn awtomatig er mwyn ichi allu dechrau mapio perthi. Bydd cylch pinc yn dangos y man cychwyn, cliciwch i ddechrau, yna llusgwch i wneud amlinell. Cliciwch eto i newid cyfeiriad. I orffen, cliciwch ddwywaith. Gallwch hefyd ddilyn ffin y parsel wrth wneud yr amlinell, bydd neges yn ymddangos yn gofyn a ydych am ddilyn y ffin.



Rhaid i berth fod o leiaf 20m o hyd i fod yn gymwys. Os yw'n fyrrach, fe welwch y neges **"Tynnwch linell sydd o leiaf 20m o hyd"**, ac ni fydd modd creu perth ddrafft.


> Tynnwch linell sydd o leiaf 20m o hyd

## Tynnu llinell perth/gwrych yn agos at ffin parsel

Os ydych chi'n creu perth yn agos at ffin, gofynnir i chi a ydych am dynnu llinell ar hyd y ffin. Dewiswch **'Ydw'** i ddilyn y ffin neu **'Na'** i dynnu'r llinell â llaw.

> Mae'r amlinell rydych wedi'i thynnu yn agos iawn i ffin nodwedd arall. Hoffech chi ddilyn amlinell y ffin honno?
>
> Ydw | Nac ydw

Fel arall, gallwch dynnu'r llinell dros y ffin i barsel cyfagos a bydd y system yn snapio'r llinell yn ôl i ffin y parsel actif.



Os ydych chi'n creu llinell perth sy'n dechrau y tu mewn i'r parsel actif, ac sydd wedyn yn mynd y tu allan iddo ac wedyn yn ôl i mewn, bydd y system yn ei rhannu'n ddwy linell ar y pwynt y mae'n gadael y parsel. Os yw un o'r perthi o dan 20m, ni fydd yn cael ei chreu.







## Cadarnhau perth/gwrych

I gadarnhau perth, cliciwch y botwm glas 'Parhau' ar waelod bar Manylion y Parsel.


Bydd y botwm 'Yn ôl' yn dileu'r holl berthi drafft rydych wedi'u lluniadu.



Bydd y perthi sydd wedi'u safio yn ymddangos o dan **'Perthi/Gwrychoedd'** ym mar Manylion y Parsel. Ar y map, byddant yn newid o las i felyn i ddangos eu bod wedi'u cadarnhau, fel y gwelwch yn allwedd y map.





Pwysig: Gyda pherthi ar ffin parsel, efallai na fydd y llinell felen yn ymddangos gan y bydd llinell las y parsel actif yn cael blaenoriaeth. I'w weld y llinell, cliciwch ar y berth ym Manylion y Parsel a bydd yn troi'n wyn, neu pwyswch ar 'Yn ôl i'r Daliad' a chwyddo'r parsel hwnnw heb glicio arno.



Cliciwch ar y saeth ar y gwymplen wrth y gair Perthi/Gwrychoedd ym mar Manylion y Parsel neu defnyddiwch y botwm 'Dangoswch y cyfan' i weld y perthi sydd wedi'u cadarnhau.


Pwyswch y botwm 'Cuddiwch y cyfan' neu doglo saeth y gwymplen i guddio'r perthi.


Mae cyfeirnod yn cael ei roi i bob darn sy'n cael ei fapio ac sydd wedi'i gadarnhau. Cliciwch ar y rhif hwn i weld y darn cyfatebol o dir ar y map a chael dewis i newid neu ddileu'r berth.



## Gosod perth/gwrych ar ben canopi coed a nodwedd barhaol o ddŵr neu a wnaed gan ddyn

Os ydych chi'n creu perth trwy naill ai canopi coed sy'n bod eisoes neu nodwedd barhaol o ddŵr neu a wnaed gan ddyn, fe welwch y negeseuon camgymeriad isod.








Cliciwch "Parhau" ar y naill neges neu'r llall i gario ymlaen i fapio'r berth ddrafft, heb gynnwys y rhannau sy'n mynd trwy'r canopi neu'r nodwedd barhaol.

Os oes rhan o berth yn llai nag 20m ar ôl ei chlipio yn ôl oherwydd nodwedd barhaol neu ganopi coed, ni chaiff ei chreu wrth i chi glicio 'Parhau'. Bydd rhannau 20m a mwy yn cael eu creu.


## Mapio perthi/gwrychoedd a choed unigol

Gallwch fapio llinell perth trwy bwyntiau coed unigol a gallwch osod pwyntiau coed unigol ar ben llinell perth.




## Gosod perth/gwrych ar ben grŵp o goed sydd wedi'i gadarnhau

Os ydych chi'n gosod perth ar ben grŵp o goed, fe welwch neges camgymeriad yn dweud bod y siâp yn gorgyffwrdd ag eitem sy'n bodoli eisoes a'u bod nhw ddim yn gydnaws â'i gilydd. Bydd dewis "Na" neu "Gwaredu lluniad" yn dileu'r berth ddrafft.





Os dewiswch "Ydy", bydd y berth newydd a'r grŵp coed sydd wedi'i gadarnhau yn troi'n las, gan droi statws y coed yn ddrafft. Bydd Manylion y Parsel yn dangos cyfeirnod y map a maint y grŵp coed a'r berth ddrafft.




Pwyswch **'Parhau'** i gadarnhau'r berth newydd a'r grŵp o goed fel y mae wedi'i ddiweddaru. Pwyswch **'Yn ôl'** i ddileu'r berth ddrafft a chadw arwynebedd gwreiddiol y grŵp.


## Gosod perth/gwrych newydd ar ben perth/gwrych sydd wedi'i gadarnhau

Gallwch luniadu perth newydd ar ben perth sydd wedi'i chadarnhau.




## Tynnu llinell perth/gwrych sy'n croesi ei hun

Os yw llinell perth yn croesi ei hun, ni chaiff ei chreu. Bydd neges camgymeriad yn ymddangos: **"Lluniwch eto gan sicrhau eich bod wedi llunio siâp dilys".**



Lluniwch eto gan sicrhau eich bod wedi llunio siâp dilys


# Crynodeb

Mae hyn yn dangos crynodeb o arwynebedd y coed a'r perthi/gwrychoedd posibl sydd wedi'u nodi ar y map. Mae'n dangos y cyfleoedd plannu posibl ond nid yw'n rhoi caniatâd nac yn mynnu eich bod yn eu cwblhau. Bydd yn dangos hefyd unrhyw goed neu berthi y byddwch wedi'u gosod ar dir sensitif.

Pwysig: Mae'r cynllun hwn yn nodi cyfleoedd posibl i blannu coed a pherthi/gwrychoedd yn unig. I'w plannu a chael cymorth, rhaid i chi wneud cais trwy gynllun grant priodol.


## Nodweddion sensitif:

Gallwch nodi'ch cynlluniau plannu ar gyfer tir sensitif, ond ni chewch blannu arno heb ganiatâd CNC drwy Gynllun Creu Coetir neu gontract Grant Bach Creu Coetir sydd wedi'i gymeradwyo. Gan na fydd modd cymeradwyo pob cynllun, rydyn ni'n eich cynghori i blannu coed a pherthi ar rannau eraill eich fferm i chi allu cynnal eich cynllun yn gynt.




# Datganiadau ac Ymrwymiadau

Mae'n rhaid ichi ddarllen y Datganiadau ac Ymrwymiadau a thicio'r blwch i gadarnhau eich bod wedi'u darllen a'ch bod yn cytuno â nhw.



# Cyflwyno

Pan fyddwch wedi cwblhau eich cynllun, dewiswch y botwm 'Cyflwyno' a bydd y wybodaeth yn cael ei chyflwyno i RPW Ar-lein.




Byddwch yn dychwelyd i dudalen Crynodeb o'r Dangosfwrdd ar ôl cyflwyno.




Pan fyddwch chi'n clicio ar y Weithred Gyffredinol eto, bydd sgrin wybodaeth yr UAs nawr yn dangos mai statws y Weithred Gyffredinol bellach yw **Wedi'i Gwblhau.** Gallwch weld y cynllun rydych wedi'i gyflwyno drwy glicio ar y botwm 'Gweld cynllun'.

# Dangosfwrdd Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy 2026

- Crynodeb o'r Gweithredoedd Cyffredinol (UA)
- UA1 Iechyd Pridd
- UA2 Rheolaeth Integredig ar Blâu (IPM)
- UA3 Meincnodi
- UA4 Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)
- UA5 Cynnal Cynefinoedd
- UA6 Creu Cynefinoedd Dros Dro ar Dir Wedi'i Wella
- UA7 Cynllun Rheoli Safleoedd
- UA8 Rheoli Perthi/Gwrychoedd
- UA9 Cynnal Coetir
- UA10 Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd
- UA11 Yr Amgylchedd Hanesyddol
- UA12 Iechyd a Lles Anifeiliaid

## UA10 : Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd Wedi'i gwblhau

Nod y Weithred Gyffredinol hon yw eich annog i ystyried ble y byddai plannu coed, coetir neu berthi/gwrychoedd o fudd i'ch busnes ffermio.

**Dyddiad cau:** 31 Rhagfyr 2026

### Eich Cynllun a Gyflwynwyd (cyflawn)

Mae eich Cynllun wedi'i gyflwyno

I weld eich datganiad, dewiswch Gweld cynllun.

Gweld cynllun